# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Llafaredd ar draws y cwricwlwm

## Ystod o brofiadau

### Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ymateb ar lafar i destunau di-dor a phytiog
- gwylio a chlywed gwahanol bobl yn siarad yn cynnwys pobl â thafodiaith wahanol ac ymateb i'r hyn a glywir ac a welir
- ymateb ar lafar i symbyliadau ac ysgogiadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a thestunau deinamig, *e.e. delweddau llonydd a symudol, darn o gerddoriaeth*
- cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chyd-destunau, *e.e. holi, dadlau, trafod, dadansoddi, cyflwyno gwybodaeth, esbonio canlyniadau, archwilio, rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau, cyflwyno profiadau personol a dychmygus, siarad yn fyrfyfyr a thechnegau drama*
- siarad a gwrando'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddosbarth
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, *e.e. dulliau drama fel chwarae rôl, cynnal trafodaeth*
- cyflwyno, siarad a pherfformio gerbron amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys dysgwyr iau a hŷn, athrawon, cyfoedion ac oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd
- meithrin eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill
- ymdrin â gweithgareddau y mae geiriau, eu tarddiad, eu hystyr, y rheswm dros eu dewis, a'u heffaith, yn ganolog
- defnyddio terminoleg sy'n addas i'r sefyllfa, *e.e. ieithwedd fathemategol, wyddonol neu gerddorol*
- cyfathrebu'n glir gan ynganu a goslefu'n briodol yn y Gymraeg
- siarad gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol
- gwylio a gwrando ar amrywiaeth o symbyliadau gweledol ac ysgrifenedig, *e.e. testunau deinamig, podlediadau, perfformiadau theatrig a barddonol, siaradwyr gwadd, esboniadau a chyfarwyddiadau*, ac ymateb iddynt ar lafar
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i drafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, *e.e. gwaith awduron a chyfoedion, a thestunau deinamig.*

### Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos heb ei uwch-oleuo. Bydd testun o'r FfLlRh sydd wedi cael ei estyn neu sydd yn sgil newydd yn ymddangos wedi'i uwch-oleuo. Bydd y testun hefyd yn cael ei ddynodi gan yr eiconau canlynol.

**Sgil estynedig ▲** **Sgil rhaglen astudio ❖**

### D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.


© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Llafaredd ar draws y cwricwlwm

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** | Blwyddyn 11<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** | Ymestyn<br>**Mae dysgwyr yn gallu:** |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • cyflwyno syniadau a phynciau yn ôl gofynion gwahanol gynulleidfaoedd<br>• siarad yn rhugl, gan ddefnyddio ystod o dechnegau, dywediadau ac ystumiau<br>• defnyddio iaith ffurfiol mewn ystod o gyd-destunau<br>• ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben<br>• cyflwyno safbwynt gydag argyhoeddiad a chynnal y safbwynt hwnnw, gan ragweld safbwyntiau eraill ac ymateb iddynt, *e.e. mewn rôl neu drafodaeth*<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun | • cyflwyno syniadau a phynciau i gwrdd â gofynion gwahanol gynulleidfaoedd<br>• siarad yn rhugl ac yn hyderus, gan ddefnyddio ystod o dechnegau, dywediadau ac ystumiau<br>• defnyddio iaith ffurfiol mewn ystod eang o gyd-destunau<br>• ymateb yn hyderus i adwaith y gwrandawyr gan addasu eu hiaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac at ddibenion gwahanol<br>• siarad gydag argyhoeddiad mewn ystod amrywiol o sefyllfaoedd a chyd-destunau i gwrdd â dibenion gwahanol<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun | • dewis arddulliau a chyweiriau addas wrth siarad<br>• blaenoriaethu'r manylion hanfodol wrth esbonio pynciau cymhleth ac anodd<br>• ysgogi, datblygu a chynnal trafodaeth grŵp, gan ddangos dealltwriaeth o syniadau cymhleth<br>• bod yn hyblyg yn eu hymatebion i herio rhagdybiaethau a datblygu syniadau<br>• siarad a gwrando'n hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. |
| | **Gwrando** | • ymateb i syniadau eraill mewn ffordd ystyriol, gan ofyn iddynt egluro eu hunain drwy ofyn cwestiynau priodol<br>• gwrando ar bob math o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, gan nodi sut mae gwahanol siaradwyr yn cyflwyno safbwyntiau penodol | • ymateb yn hyderus ac yn sensitif i syniadau eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd gan ystyried yr wybodaeth a'r syniadau dan sylw a gofyn cwestiynau perthnasol<br>• gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau, gan nodi sut mae gwahanol siaradwyr yn cyflwyno safbwyntiau penodol | |
| | **Cydweithio a thrafod** | • addasu eu siarad mewn pob math o rolau, gan gynnwys sefyllfaoedd a chyd-destunau mwy ffurfiol, *e.e. siarad â chynulleidfaoedd mawr mewn trafodaeth ffurfiol*<br>• defnyddio opsiynau a strategaethau amrywiol er mwyn galluogi'r grŵp i ddod i gonsensws. | • addasu sut maent yn siarad mewn pob math o rolau, gan gynnwys sefyllfaoedd a chyd-destunau mwy ffurfiol, *e.e. siarad â chynulleidfaoedd mwy mewn trafodaeth ffurfiol*<br>• defnyddio opsiynau a strategaethau amrywiol er mwyn galluogi'r grŵp i ddod i gonsensws. | |


© Hawlfraint y Goron 2014    WG21273

# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Llafaredd ar draws y cwricwlwm

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 11<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Ymestyn<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | Siarad | • ymestyn eu hiaith lafar yn hyderus gan ddefnyddio ystod o batrymau cystrawennol, geirfa gyfoethog, fanwl-gywir (gan gynnwys terminoleg) a gwneud cyfraniadau sylweddol ac ystyrlon sy'n ennyn diddordeb y gwrandäwr ❖<br>• meithrin cywirdeb ac arddangos gafael dda iawn ar ffurfiau berfau (amser a pherson), rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau'n gywir ❖<br>• strwythuro'u hiaith yn effeithiol gan ddefnyddio nodweddion di-eiriau yn ogystal â'r iaith lafar naturiol Gymraeg i gwrdd ag amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol ❖<br>• gwerthuso'u siarad eu hunain ac eraill gan ddefnyddio ac addasu'u hiaith lafar ar gyfer ystod eang o ddibenion a sefyllfaoedd (gan gynnwys gweithgareddau drama) ac ymestyn eu dealltwriaeth o sut y gellid gwella ❖<br>• trafod ac ymateb yn synhwyrol i bynciau a thestunau ysgrifenedig sy'n fwyfwy heriol gan ddatblygu a chefnogi eu syniadau gyda thystiolaeth bwrpasol. ❖ | • ymestyn eu hiaith lafar yn hyderus gan ddefnyddio ystod o batrymau cystrawennol, geirfa gyfoethog, fanwl-gywir (gan gynnwys terminoleg) a gwneud cyfraniadau sylweddol ac ystyrlon sy'n ennyn diddordeb y gwrandäwr ❖<br>• meithrin cywirdeb ac arddangos gafael dda iawn ar ffurfiau berfau (amser a pherson), rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau'n gywir ❖<br>• addasu'u hiaith yn effeithiol gan ddefnyddio nodweddion di-eiriau yn ogystal â'r iaith lafar naturiol Gymraeg i gwrdd ag ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol ❖<br>• gwerthuso'u siarad eu hunain ac eraill yn feirniadol gan esbonio sut y maent hwy a siaradwyr eraill yn addasu'u iaith lafar ar gyfer ystod o ddibenion a sefyllfaoedd penodol (gan gynnwys gweithgareddau drama) a chwilio am ffyrdd parhaus i wella'u llafaredd ❖<br>• ymateb i bynciau a thestunau ysgrifenedig sy'n fwyfwy heriol gan ddatblygu a chefnogi eu syniadau hwy eu hunain ac eraill drwy resymu, dadansoddi a cheisio eglurhad am ragdybiaethau eraill. ❖ | • dewis arddulliau a chyweiriau priodol ac addas wrth ddefnyddio'r iaith lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol, gan ddangos cywirdeb ❖<br>• amrywio strwythurau brawddegau yn hyderus gan ddewis ystod eang o eirfa i fynegi gwybodaeth, syniadau, safbwyntiau a theimladau mewn modd sy'n cynnal diddordeb ❖<br>• dechrau a chynnal trafodaethau cymhleth ❖<br>• dangos sgiliau gwrando sensitif wrth ymateb i gyfraniadau pobl eraill gan gynnal a datblygu'r drafodaeth ❖<br>• adnabod ac ymateb i anghenion gwahanol rolau, boed y rheiny mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol neu'n weithgareddau creadigol. ❖ |



© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Darllen ar draws y cwricwlwm

## Ystod o brofiadau

### Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddatblygu'n ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar
- darllen fel unigolyn a chydag eraill, *e.e. darllen mewn parau, darllen mewn grŵp dan arweiniad, darllen ar y cyd, darllen yn annibynnol*
- profi amrywiaeth eang o destunau ac ymateb iddynt, gan gynnwys:
  - testunau pytiog, *e.e. testunau gwybodaeth, deunydd cyfeirio a thestunau deinamig*
  - barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
  - drama a pherfformiadau drama
- darllen/gwylio detholiadau a thestunau di-dor:
  - pynciau heriol sy'n ehangu'r gorwelion, sy'n datblygu'r gallu i ymresymu, *e.e. materion amgylcheddol, cynaliadwyedd, dinasyddiaeth fyd-eang, hawliau anifeiliaid, bwyta'n iach*
  - ag iddynt amrywiaeth o nodweddion o ran strwythur a threfn
  - sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas yn yr unfed ganrif ar hugain
  - sy'n adlewyrchu dewis darllen personol dysgwyr
  - ag iddynt amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
  - deunydd sy'n cynnig her, *e.e. testunau sy'n cynnwys parodi neu eironi, testunau sy'n chwarae ar eiriau, testunau coeglyd*
- darllen at ddibenion gwahanol, *e.e. er mwynhad personol, casglu a chywain gwybodaeth, dilysu gwybodaeth, nodi dyfeisiau iaith a defnyddir gan yr awdur*
- trafod a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill
- deall sut mae testunau'n esblygu wrth ymateb i newidiadau cymdeithasol a thechnolegol.

## Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos heb ei uwch-oleuo. Bydd testun o'r FfLlRh sydd wedi cael ei estyn neu sydd yn sgil newydd yn ymddangos wedi'i uwch-oleuo. Bydd y testun hefyd yn cael ei ddynodi gan yr eiconau canlynol.

**Sgil estynedig ▲** **Sgil rhaglen astudio ❖**

## D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.


© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Darllen ar draws y cwricwlwm

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 11<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Ymestyn<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | • defnyddio eu gwybodaeth am:<br>– darddiad a theuluoedd geiriau<br>– cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl<br>• defnyddio'r rhyngrwyd, gan ddewis a dethol testunau ac asesu pa mor ddibynadwy a phwysig ydynt | • defnyddio eu gwybodaeth am:<br>– darddiad a theuluoedd geiriau<br>– cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• defnyddio ystod o strategaethau, *e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi*, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl<br>• defnyddio'r rhyngrwyd, gan ddewis a dethol testunau ac asesu pa mor ddibynadwy, pwysig a chywir ydynt | • gwerthuso arddull awduron a'u defnydd o ffurf, strwythur ac iaith, gan ymateb yn gyson i destunau yn hyderus<br>• ymateb yn ystyrlon ac yn feirniadol gan ddangos gwreiddioldeb wrth ddadansoddi a dehongli<br>• dangos bod ganddynt drosolwg dda o destunau ac ymateb yn hyderus ac yn graff i brif syniadau a themâu<br>• cymharu a thrawsgyfeirio'n hyderus ac â chrebwyll. |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | • canolbwyntio ar ddarllen a dadansoddi ystod o destunau sy'n newydd iddynt, rhai sydd wedi'u hargraffu a thestunau aml-foddol, gan weithio'n annibynnol<br>• dadansoddi testunau a'u his-destunau, gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol<br>• deall testunau'n gyflawn gan resymu a dadansoddi beth sydd dan wyneb testun a dod i gasgliad gan ddirnad sut y gall y cyd-destun ddylanwadu ar y darllenydd<br>• cymharu a chyferbynnu themâu a phynciau ar draws ystod o destunau a gwneud cysylltiadau rhwng testunau<br>• ymchwilio ystod eang o ffynonellau'n annibynnol gan ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o bwnc anghyfarwydd | • canolbwyntio ar ddarllen a dadansoddi ystod eang o destunau sy'n newydd iddynt, rhai sydd wedi'u hargraffu a thestunau aml-foddol, gan weithio'n annibynnol<br>• dadansoddi ac ymateb i destunau a'u his-destunau yn hyderus, gan ddeall a dehongli'r ystyr<br>• deall testunau'n gyflawn gan resymu a dadansoddi beth sydd dan wyneb testun a dod i gasgliad gan ddirnad sut y gall y cyd-destun ddylanwadu ar y darllenydd<br>• cymharu a chyferbynnu'n hyderus themâu a syniadau ar draws ystod eang o destunau, gan ystyried sut maent yn amrywio o ran eu diben a'u heffaith<br>• ymchwilio ystod eang o ffynonellau'n annibynnol gan ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o bwnc sy'n gynyddol gymhleth | |


© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Darllen ar draws y cwricwlwm

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 11<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Ymestyn<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd | **Ymateb a dadansoddi** | • cyfosod a dadansoddi mwy nag un ffynhonnell wybodaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o destunau a all gyfleu syniadau sy'n gwrthdaro<br>• deall a gwahaniaethu rhwng ffaith/tystiolaeth a gogwydd/dadl gan wneud sylwadau ar bwyntiau amlwg a'r hyn sydd ymhlyg<br>• gwneud sylwadau ar ddehongliadau gwahanol o bynciau a syniadau, gan ddefnyddio'r testun i gefnogi eu barn<br>• gwerthuso diben, effaith a dibynadwyedd testunau. | • cyfosod a dadansoddi mwy nag un ffynhonnell wybodaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn a chytbwys o destunau a all gyfleu syniadau sy'n gwrthdaro<br>• deall ac ystyried yn fanwl sut y gellir dehongli testunau'n wahanol gan wahaniaethu rhwng ffaith/tystiolaeth a gogwydd/dadl<br>• gwneud sylwadau ar ddehongliadau gwahanol o bynciau a syniadau, gan ddefnyddio'r testun i gefnogi eu barn<br>• gwerthuso diben, effaith a dibynadwyedd testunau. | |


© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273

# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Darllen ar draws y cwricwlwm

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 11<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Ymestyn<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth | Strategaethau darllen | • ymateb yn frwdfrydig ac yn feirniadol i ystod o destunau di-dor gan eu dehongli mewn modd creadigol a rhesymegol ❖<br>• gwerthuso gwahanol nodweddion testunau (di-dor a phytiog) o ran iaith, thema, strwythur a chyflwyniad gan ystyried sut y maent yn effeithio ar y darllenydd ❖<br>• mynegi barn yn groyw am yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwylio gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, y drefn a'r cyflwyniad gan ddewis a dethol tystiolaeth a dyfyniadau o'r testun i gefnogi'r farn honno ❖<br>• cymharu testunau sydd wedi eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau yn hyderus gan ystyried yn ofalus y diben a'r effaith a gânt ar y gynulleidfa, *e.e. stori fer Kate Roberts* Te yn y Grug *a'r ffilm* Mynydd Grug ❖ | • ymateb yn frwdfrydig ac yn feirniadol i ystod o destunau di-dor, gan ddangos dychymyg a gwreiddioldeb wrth eu dehongli ❖<br>• gwerthuso yn hyderus nodweddion gwahanol destunau (di-dor a phytiog) o ran iaith, thema, strwythur a chyflwyniad, gan sylwi'n fanwl ar sut y maent yn effeithio ar y darllenydd ❖<br>• mynegi barn yn groyw am yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwylio gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, y drefn a'r cyflwyniad gan ddewis a dethol tystiolaeth a dyfyniadau o'r testun i gefnogi'r farn honno ❖<br>• gwerthuso yn hyderus sut y caiff testunau eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau, gan ystyried eu diben yn ofalus a thrafod yr effaith a gânt ar y gynulleidfa ❖ | • ymateb i ystod o destunau di-dor a phytiog yn bersonol, yn feirniadol ac mewn modd sy'n darbwyllo ❖<br>• dehongli a gwerthuso sut mae elfennau iaith, gramadeg, strwythur a chyflwyniad yn denu'r darllenydd ac yn creu effaith ❖<br>• adnabod a thrafod safbwyntiau awduron mewn naratif, dadl, esboniad neu ddadansoddiad ❖<br>• dewis dyfyniadau addas gan wneud cymariaethau a thraws-gyfeirio rhwng testunau gan egluro diben ac ystyr testunau. ❖ |
| Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd | Ymateb a dadansoddi | • gwneud cymariaethau a chysylltiadau manwl rhwng testunau di-dor a/neu bytiog, *e.e. dadansoddi thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriad.* ❖ | • gwneud cymariaethau a chysylltiadau manwl a chyson rhwng testunau di-dor a/neu bytiog, *e.e. dadansoddi thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriad.* ❖ | |


© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

# Ystod o brofiadau

## Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ysgrifennu gan ymateb i ystod eang o brofiadau llafar, gwrando a darllen cyfoethog
- ysgrifennu ar gyfer nifer o wahanol ddibenion, *e.e. adrodd yn ôl, rhoi cyfarwyddiadau, cyflwyno gwybodaeth, egluro, darbwyllo, trafod, cyflwyno data, egluro a dehongli canlyniadau, gwerthuso, mynegi barn, cyfleu teimladau a syniadau, llunio adroddiadau, dychmygu, disgrifio a dangos empathi*
- ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth o ffurfiau di-dor a phytiog gan gynnwys testunau disgrifiadol, adroddol, esboniadol, dadleuol, cyfarwyddiadol a thrafodaethol, *e.e. llythyron, dyddiaduron, erthyglau, adroddiadau, portreadau, areithiau, dramâu, sgriptiau, taflenni, hysbysebion, posteri, tudalennau gwefan, holiaduron, adolygiadau, ymsonau a thestunau digidol fel e-byst neu flogiau*, gan gynnwys naratif yn y person cyntaf a'r trydydd person
- ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd real a dychmygol, *e.e. cyfoedion, dysgwyr iau, athrawon, aelodau teulu, cynulleidfaoedd anghyfarwydd a chyfarwydd*
- ysgrifennu barddonol sy'n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, *e.e. odlau a ffurf*
- defnyddio ystod eang o ysgogiadau a symbyliadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, *e.e. storïau, cerddi, profiadau, ffilmiau, paentiadau, testunau deinamig a cherddoriaeth*
- ystyried a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, *e.e. awduron, cyfoedion*.

## Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos heb ei uwch-oleuo. Bydd testun o'r FfLlRh sydd wedi cael ei estyn neu sydd yn sgil newydd yn ymddangos wedi'i uwch-oleuo. Bydd y testun hefyd yn cael ei ddynodi gan yr eiconau canlynol.

**Sgil estynedig ▲ Sgil rhaglen astudio ❖**

## D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.


© Hawlfraint y Goron 2014 WG21273

# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 11<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Ymestyn<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | **Ystyr, dibenion, darllenwyr** | • ysgrifennu darnau estynedig sy’n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy’n crynhoi, gan ddangos ymwybyddiaeth glir o bwy yw’r darllenydd neu’r gynulleidfa<br>• llunio ymatebion sy’n cysylltu ac yn datblygu syniadau i roi sylw i bob elfen o’r pwnc<br>• cynllunio’n briodol i ddatblygu sut y maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd<br>• defnyddio adnoddau a chonfensiynau TGCh mewn ffordd greadigol a phriodol er mwyn cyfathrebu’n effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau | • ysgrifennu darnau estynedig sy’n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy’n crynhoi, gan ddangos ymwybyddiaeth glir o bwy yw’r darllenydd neu’r gynulleidfa<br>• llunio ymatebion manwl yn hyderus, gan gysylltu a datblygu syniadau i roi sylw i bob elfen o’r pwnc<br>• cynllunio’n briodol i ddatblygu sut y maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth gynyddol heriol o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd<br>• defnyddio adnoddau a chonfensiynau TGCh mewn ffordd greadigol a phriodol er mwyn cyfathrebu ar draws ystod o gyd-destunau sy’n gynyddol amrywiol a heriol | • dangos rheolaeth hyderus ar draws ystod o ffurfiau ac arddulliau sy’n briodol i’r dasg a’r diben<br>• trefnu testunau yn ddeheuig fel y bydd yn darllen yn ystyrlon, gan ddefnyddio ystod eang o strwythurau brawddegau, geirfa uchelgeisiol ac atalnodi a sillafu cywir<br>• sicrhau bod y cynnwys yn taro deuddeg ac wedi’i saernïo’n dda er mwyn hoelio sylw a diddordeb y darllenydd. |
| | **Strwythur a threfn** | • gwella cynnwys, strwythur a chywirdeb eu hysgrifennu drwy ei adolygu a’i olygu’n annibynnol<br>• ysgrifennu’n annibynnol ar ffurf briodol gyda hyder cynyddol, gan sicrhau bod y cynnwys yn drefnus, yn fanwl ac yn berthnasol, *e.e. cyflwyno safbwyntiau, gwybodaeth ac esboniadau yn y ffordd orau*<br>• dangos ymwybyddiaeth glir o wahanol ddarllenwyr drwy ddewis amrywiaeth o arddulliau a strwythurau ac addasu eu defnydd o iaith<br>• trefnu’r hyn y maent yn ei ysgrifennu ar ffurf briodol, gan sicrhau bod y cynnwys yn fanwl oddi mewn a rhwng paragraffau neu adrannau | • gwella cynnwys, strwythur a chywirdeb eu hysgrifennu drwy ei adolygu a’i olygu’n annibynnol<br>• ysgrifennu’n annibynnol ar ffurf briodol yn hyderus, gan sicrhau bod y cynnwys yn drefnus, yn fanwl ac yn berthnasol, *e.e. i esbonio proses, cyfleu dadl*<br>• dangos ymwybyddiaeth gyson o wahanol ddarllenwyr drwy ddewis amrywiaeth o arddulliau a strwythurau ac addasu eu defnydd o iaith mewn ffordd briodol<br>• trefnu’r hyn y maent yn ei ysgrifennu ar ffurf briodol, gan sicrhau bod y cynnwys yn fanwl oddi mewn a rhwng paragraffau neu adrannau, a chan ddatblygu a chynnal syniadau mewn ffordd ystyrlon | |



© Hawlfraint y Goron 2014

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 11<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Ymestyn |
|---|---|---|---|---|
| Ysgrifennu'n gywir | **Iaith** | • defnyddio iaith er mwyn bod yn wrthrychol a ddiduedd a chydnabod y gallai fod mwy nag un safbwynt, *e.e. defnyddio geiriau fel 'gellid dadlau', 'gellid gweld bod … '*<br>• defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol, geirfa briodol, a mynegiant at ddibenion gwahanol gan greu effeithiau gwahanol, *e.e. perswadio, rhoi gwybodaeth, diddanu* | • gwneud defnydd o iaith er mwyn bod yn wrthrychol a diduedd wrth ddelio â phynciau sy'n gynyddol gymhleth, gan ddefnyddio ystod o ddyfeisiadau ieithyddol<br>• defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol yn gywir a defnyddio geirfa a'r mynegiant priodol i adlewyrchu gofynion y dasg ac i greu effeithiau gwahanol, *e.e. crynhoi dadl* | |
| | **Cystrawen**<br>**Atalnodi**<br>**Sillafu**<br>**Llawysgrifen** | • amrywio strwythurau brawddegau er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y darllenydd ac ysgrifennu'n ramadegol gywir<br>• defnyddio ystod gyflawn o atalnodi er mwyn cyflymu ac arafu'r dweud, sicrhau bod yr ystyr yn glir, osgoi amwysedd a chreu effaith bwrpasol<br>• defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau amrywiol i sillafu ystod gynyddol o eiriau cyfarwydd, geiriau anghyfarwydd a geiriau sy'n benodol i faes arbennig yn gywir<br>• cyflwyno'u gwaith yn effeithiol, yn ysgrifenedig neu ar sgrin, gan ddewis ffurf, delweddau a graffeg i helpu i gyfleu'r ystyr<br>• ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun. | • amrywio strwythurau brawddegau er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y darllenydd ac ysgrifennu'n ramadegol gywir<br>• defnyddio ystod gyflawn o atalnodi er mwyn cyflymu ac arafu'r dweud, sicrhau bod yr ystyr yn glir, osgoi amwysedd a chreu effaith bwrpasol<br>• defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau amrywiol i sillafu ystod gynyddol o eiriau cyfarwydd, geiriau anghyfarwydd a geiriau sy'n benodol i faes arbennig yn gywir<br>• cyflwyno'u gwaith yn effeithiol, yn ysgrifenedig neu ar sgrin, gan ddewis ffurf, delweddau a graffeg i helpu i gyfleu'r ystyr<br>• ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun<br>• defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun. | |

 © Hawlfraint y Goron 2014 

# Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg

## Llinyn: Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 10<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Blwyddyn 11<br>Mae dysgwyr yn gallu: | Ymestyn<br>Mae dysgwyr yn gallu: |
|---|---|---|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | Ystyr, dibenion, darllenwyr | • dangos rheolaeth, peth meistrolaeth a gwreiddioldeb wrth ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau di-dor a phytiog; ffurfio cymeriadau argyhoeddiadol a datblygu plot gan roi sylw i gyflymder, siâp, manylion a dyfeisiau penodol eraill er mwyn dal a chynnal diddordeb y darllenydd ❖<br>• defnyddio geirfa uchelgeisiol yn briodol ac yn gywir i gyfleu ystyr a chreu effeithiau bwriadol ❖<br>• defnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion yn hyderus i werthuso a gwella'u gwaith personol hwy eu hunain a gwaith eraill ❖ | • dangos rheolaeth, meistrolaeth a gwreiddioldeb wrth ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau di-dor a phytiog; ffurfio cymeriadau argyhoeddiadol a datblygu plot, gan roi sylw i gyflymder, siâp, manylion a dyfeisiau penodol eraill er mwyn hoelio diddordeb y darllenydd ❖<br>• defnyddio geirfa uchelgeisiol yn hyderus ac yn gywir i gyfleu ystyr a chreu effeithiau bwriadol ❖<br>• defnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion yn hyderus i werthuso a gwella'u gwaith personol hwy eu hunain a gwaith eraill ❖ | • ysgrifennu'n hyderus, gan ddangos rheolaeth sicr wrth ddefnyddio ystod o ffurfiau ac arddulliau sy'n briodol i'r dasg a'r diben ❖<br>• ysgrifennu testunau sy'n denu ac yn cynnal diddordeb y darllenydd drwy ddadlau'n rhesymegol a pherswadio'n bwerus neu'n dangos dawn greadigol ❖<br>• defnyddio nodweddion ieithyddol a strwythurol yn fedrus i ddilyniannu testunau a bod yn gydlynnol ❖<br>• ysgrifennu amrywiaeth eang o strwythurau brawddegol cywir er mwyn sicrhau eglurder ❖<br>• dewis o ystod eang o eirfa gan ddangos dychymyg ❖<br>• defnyddio atalnodi, sillafu a gramadeg yn gywir. ❖ |
| Ystrifennu'n gywir | Iaith | • dangos gafael gadarn ar iaith a chystrawen yr iaith Gymraeg ❖ | • dangos gafael gadarn ar iaith a chystrawen yr iaith Gymraeg ❖ | |
| | Cystrawen<br>Atalnodi<br>Sillafu<br>Llawysgrifen | • mewn ystod o waith ysgrifennu di-dor a phytiog, meithrin cywirdeb drwy ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson), negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio'r mwyafrif o genedl enwau yn gywir. ❖ | • mewn ystod o waith ysgrifennu di-dor a phytiog, meithrin cywirdeb drwy ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson), negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio'r mwyafrif o genedl enwau yn gywir. ❖ | |

**Allwedd:** Testun heb ei uwch-oleuo: Datganiad FfLlRh Sgil estynedig ▲ Sgil rhaglen astudio ❖


© Hawlfraint y Goron 2014
WG21273